# Asesiad Llwybrau Cerdded i Ysgolion RhCT

## Cross Inn i Ysgol Gyfun Bryncelynnog

Mawrth 2025



# YMWADIAD CYFFREDINOL:

Cafodd yr adroddiad yma ei baratoi gan Redstart o blaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("y Cleient") ac mae at ddefnydd a budd y Cleient yn unig yn unol â'r cytundeb rhwng y Cleient a Redstart y cafodd gwasanaethau Redstart eu cyflawni oddi tano. Heblaw am atebolrwydd nad oes modd ei eithrio yn ôl y gyfraith, dydy Redstart ddim yn derbyn unrhyw atebolrwydd i unrhyw barti arall mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad yma.

Er y cymerwyd gofal wrth lunio'r adroddiad yma, mae'r casgliadau a'r argymhellion sydd ynddo yn seiliedig ar wybodaeth a gafodd ei darparu gan drydydd parti ("Gwybodaeth Trydydd Parti"). At ddibenion yr adroddiad yma, mae Redstart wedi dibynnu ar yr Wybodaeth Trydydd Parti a chymryd yn ganiataol ei bod yn gywir ac yn gyflawn. Nid yw wedi gwirio gwybodaeth o'r fath yn annibynnol at ddibenion yr adroddiad yma. Dydy Redstart ddim yn gwneud unrhyw gynrychiolaeth, gwarant nac ymgymeriad (datganedig neu ymhlyg) yng nghyd-destun Gwybodaeth Trydydd Parti a dydy Redstart ddim yn cymryd nac yn derbyn cyfrifoldeb am ddigonolrwydd, cyflawnrwydd na chywirdeb yr adroddiad yng nghyd-destun yr Wybodaeth Trydydd Parti sy'n sail iddo.

# RHYDDID GWYBODAETH:

Mae Redstart yn deall ac yn cydnabod rhwymedigaethau a chyfrifoldebau cyfreithiol yr Awdurdod o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y "Ddeddf") ac mae'n llwyr werthfawrogi y gallai fod yn ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu unrhyw wybodaeth sydd ganddo o dan delerau'r Ddeddf.

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 1
2. Aliniad Polisi 2
3. Gweithdrefnau 4
4. Lleoliad y Safle a Llwybr Cerdded 5
5. Arolygon Cerdded/Traffig 20
6. Materion Cymdeithasol 23
7. Data Gwrthdrawiadau 24
8. Trosolwg Llwybr 25
9. Casgliad ac Argymhellion 27

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Redstart wedi cael ei gomisiynu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) i gynnal asesiad i weld a oes llwybr cerdded ar gael rhwng Cross Inn ac Ysgol Gyfun Bryncelynnog.

1.2 A siarad yn gyffredinol, bydd llwybr ar gael os yw'n ddigon diogel i ddisgybl gerdded ar ei ben ei hun, neu yng nghwmni oedolyn priodol, gan ddibynnu ar oedran y disgybl. Yn rhan o waith asesu’r llwybr cerdded, bydd asesiad o'r peryglon sy’n wynebu plant a’r rhieni/cynhalwyr sy’n eu hebrwng ar hyd y llwybr rhwng y cartref a’r ysgol angen yn cael ei gynnal.

1.3 Bydd asesiadau o’r fath yn dilyn Darpariaethau Statudol Llywodraeth Cymru ar yr Asesiad Risg o Lwybrau Cerdded i’r Ysgol, fel y nodir yn Narpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr 2014.

# 2. Aliniad Polisi

2.1 Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi'r fframwaith cyfreithiol y gwneir darpariaethau teithio oddi mewn iddo ar gyfer dysgwyr sy'n teithio o'r cartref i'r ysgol. Ym mis Mehefin 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr i gynorthwyo awdurdodau lleol i roi'r Mesur ar waith.

2.2 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i asesu anghenion teithio dysgwyr sy'n cerdded i'r ysgol. Mae'r Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn galluogi awdurdodau lleol i benderfynu a yw llwybr i'r ysgol 'ar gael' (diogel) i'w gerdded neu'n cael ei ystyried 'ddim ar gael' (anniogel) a'r mesurau diogelu y gellid eu rhoi ar waith i sicrhau bod y llwybr 'ar gael' (yn ddiogel) i'w gerdded neu y gall ddod yn 'ddiogel'.

2.3 Mae dogfen Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r materion a ganlyn gael eu hystyried wrth asesu llwybr;

Er mwyn i lwybr gael ei ddosbarthu'n un sydd ar gael (diogel) mae angen i'r llwybr fod;

- Yn droedffordd ddigonol barhaus ar ffyrdd sy'n cludo traffig canolig i drwm; **neu**
- "Camau i lawr" ar ffyrdd sydd â llif traffig isel ond llinellau gweld digonol i roi digon o rybudd ymlaen llaw i yrwyr a cherddwyr; **neu**
- Ar ffyrdd gyda llif traffig isel iawn, dim "camau i lawr", ond digon o linellau gweld da i roi digon o rybudd ymlaen llaw.

Os oes angen croesi ffyrdd, argymhellir bod un o'r mesurau diogelwch canlynol:

- Lloches i gerddwyr; **neu**
- Gwelededd – dylai fod yn ddigon da i ganiatáu i gerbydau stopio'n ddiogel (o ystyried y rheol cyflymder yr 85fed canradd, mae pellteroedd stopio cerbydau fel y rhai a nodir yn Rheolau'r Ffordd Fawr); **neu**
- Digon o fylchau yn llif y traffig a'r llinell weld i ganiatáu digon o gyfleoedd i groesi'n ddiogel; **neu**
- Digon o gyfleusterau croesi (er enghraifft, croesfannau sebra, pelican); **neu**
- Digon o gamau i gerddwyr wrth y goleuadau traffig (gan gynnwys llochesi angenrheidiol); **neu**
- Digon o Hebryngwyr Croesfan Ysgol (pobl lolipop).

2.4 Dylid ystyried y wybodaeth ganlynol fel y manylir yn y ddogfen Teithio gan Ddysgwyr a'i chrynhoi isod:

a) Cyfyngiadau cyflymder o gwmpas neu gerllaw ysgolion;

b) Llif traffig dwy ffordd a gofnodir mewn Unedau Ceir Teithwyr (PCUs) - mae llif traffig isel yn cael ei bennu o dan 400 o gerbydau mewn cyfnod o awr, llif traffig canolig rhwng 400 ac 840 a llif traffig trwm dros 840 o gerbydau yr awr. Asesir bod ffordd â llai na 240 o gerbydau yr awr yn ddiogel i'w chroesi, sy'n cyfateb i 1 cerbyd bob 15 eiliad;

c) Mae angen dadansoddiad o fylchau mewn traffig am 5 munud yn olynol. Ystyrir bod 4 bwlch o fewn cyfnod o 5 munud o'r fath yn dderbyniol. Ar gyflymder cerdded o 1 metr yr eiliad bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad tra bydd angen bwlch mwy o tua 10 i 12 eiliad ar eraill;

d) Hanes gwrthdrawiadau blaenorol am 3 blynedd o leiaf;

e) Lled, cyflwr, a gweledeedd llwybr troed. Ar ffyrdd â llif traffig isel gellir tybio fel arfer bod llain ymyl y gall plentyn a'r rhiant sy'n ei hebrwng gamu arni pan fydd traffig yn mynd heibio yn darparu llwybr sydd ar gael;

f) Lle mae angen croesi ffyrdd, argymhellir y dylid ystyried argaeledd cyfleusterau croesi megis llochesi canolog, croesfannau cerddwyr neu arwyddion traffig;

g) Dylid ystyried llifogydd posibl ac, os oes angen, nodweddion diogelwch gan gynnwys arwyddion, goleuadau, rhwystrau diogelwch;

h) Unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ardal a allai gael effaith ar lwybrau cerddwyr;

i) Croesfannau rheilffordd;

j) Perygl cymdeithasol a achosir gan unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol posibl;

k) Unrhyw newidiadau i nodweddion y bobl sy'n cerdded y llwybr.

2.5 Mae Perygl Cymdeithasol yn agored i ddehongliadau gwahanol ac mae'n oddrychol. O ran mesur perygl cymdeithasol, dylai tystiolaeth fod ar fael i nodi unrhyw beryglon o'r fath.

2.6 Wrth gynnal asesiadau risg, argymhellir bod awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau/asiantaethau sydd ag arbenigedd mewn (gan gynnwys cyfrifoldeb am) fynd i'r afael â pherygl cymdeithasol a'i fesur. Mae gan yr Heddlu neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gyfrifoldeb am droseddu, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, tra bod y Byrddau Lleol Diogelu Plant yn gyfrifol am faterion diogelu/amddiffyn plant.

2.7 Mae eu cyfranogiad yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth, asesu, a rheoli unrhyw risgiau o'r fath. Felly, nid yw Redstart wedi'i gomisiynu i nodi materion yn ymwneud â pheryglon cymdeithasol a achosir gan ymddygiad gwrthgymdeithasol.

# 3. Gweithdrefnau

## 3.1 Ymweliad Safle

3.1.1 Cynhaliwyd asesiad safle cerdded i ymchwilio i'r llwybr ac i nodi peryglon / gwaith adfer posibl sydd ei angen er mwyn darparu llwybr cerdded diogel. Cafodd y llwybr ei gerdded ar adegau i ddal amodau traffig arferol yn ystod yr amser yr oedd plant ysgol yn cerdded y llwybr.

3.1.2 Rhestrir isod enghreifftiau o beryglon safle nodweddiadol a fydd yn cael eu hystyried o ganlyniad i'r asesiad cerdded:

- Rhyng-welededd rhwng gyrwyr a cherddwyr, ar hyd y llwybr ac ar gyffyrdd bach;
- Nifer uchel o draffig wrth groesfannau a mathau o gerbydau sy'n defnyddio'r llwybr;
- Cyflwr wyneb y llwybr troed, lled defnyddiadwy, a chysylltedd rhwng llwybrau troed cyfagos;
- Unrhyw ddail sydd wedi gordyfu sy'n rhwystro symudiadau cerddwyr/sy'n culhau'r lled defnyddiadwy;
- Cerbydau'n parcio ar y droedffordd gan achosi rhwystr/gan gulhau'r lled defnyddiadwy.

## 3.2 Gwybodaeth i'w Darparu

3.2.1 Mae'r wybodaeth ganlynol i'w darparu yn rhan o'r asesiad:

a) Cynllun yn dangos y llwybrau a aseswyd;


b) Adroddiad yn nodi peryglon/risgiau posibl ac adferiad posibl ar gyfer pob perygl posibl a nodwyd.

# 4. Lleoliad y Safle a Llwybr Cerdded

## 4.1 Trosolwg Llwybr

4.1.1 Mae'r llwybr rhwng Yr Heol Fawr, Cross Inn, Llantrisant CF72 8AZ ac Ysgol Gyfun Bryn Celynnog, Beddau CF38 2AE, fel y dangosir yn **Nelwedd 4.1** isod. Mae'r llwybr ar hyd y ffyrdd canlynol: Yr Heol Fawr, Heol Caerdydd, Lôn Tir Meibion, llwybr troed trwy Ganolfan Hamdden Llantrisant, y B4595 Heol Talbot, Teras Insole, Heol Sticil-y-Beddau, Heol-Y-Beiliau, Y Stablau, Stryd yr Ysgol, Stryd yr Alarch, Heol Y Sarn, Stryd Fawr, Stryd y Fasnach, Heol y Bont-Newydd, Y B4595, Ffordd Llantrisant, Ffordd Penycoedcae, Ysgol Gyfun Bryncelynnog.

**Delwedd 4.1 – Llwybr 7 – Cross Inn i Ysgol Gyfun Bryn Celynnog (Delwedd © 2024 Airbus)**




4.1.2 Yn gyffredinol, mae llwybrau troed ar hyd y llwybr yn ddigon llydan i ganiatáu i gerddwyr fynd heibio'i gilydd yn ddidrafferth. Mae hyn yn lleihau ar gyfer rhai rhannau byr gyda'r gofyniad i gerddwyr naill ai ildio i'w gilydd neu groesi i ochr arall y ffordd, neu 'gamu i lawr' i'r ffordd gerbydau. Mae'r ardaloedd hyn yn y lleoliadau canlynol:

- Y droedffordd y tu allan i rif 58 Heol Caerdydd
- Y droedffordd y tu allan i rif 30 Heol Caerdydd

- Lleoliadau amrywiol ar hyd Stryd yr Alarch
- Y tu allan i'r Bull Ring General Store

4.1.3 Darperir cysylltedd rhwng llwybrau troed yn bennaf gan fannau rheoli â signalau, ynysoedd lloches canolog, a mannau croesi heb eu rheoli eraill. Fodd bynnag, mae rhannau o'r llwybr troed trwy 'Hen Llantrisant' yn gul ac yn dod i ben yn sydyn. Mae hyn yn arwain at rwydwaith troedffyrdd wedi'i ddatgysylltu/anghyson ar hyd y llwybr cerdded rhwng y B4595 Heol Talbot (Teras Insole) a'r B4595 Heol y Bont-Newydd (ger tafarn y Cross Keys). Cofnodir llif traffig ar hyd y rhan hon fel canolig, gyda rhwng 581 a 636 o gerbydau yr awr. Er gwaethaf yr uchod, nodir bod rhwng 6 a 27 o fylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud (a ystyrir yn Narpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn ddigon i groesi'n ddiogel) ac mae'r llwybr drwy'r Stryd Fawr ar gael ar hyn o bryd.

4.1.4 Er gwaethaf y penderfyniad ym ***mharagraff 4.1.3*** uchod, y dewis arall yw defnyddio Teras Insole, Heol Sticil-y-Beddau, Heol-Y-Beiliau, Y Stablau, Stryd yr Ysgol, Stryd yr Alarch, Heol y Sarn a Stryd Fawr (lle mae'r llwybr yn ymuno â'r B4595 Heol y Bont-Newydd). Mae rhai o'r strydoedd hyn yn ymddangos yn rhai 'ar gyfer mynediad yn unig' i'r ardaloedd preswyl cyfagos, gyda llif traffig a chyflymder isel iawn wedi'u nodi, sy'n golygu bod angen i gerddwyr 'ildio', 'camu i lawr' neu gerdded ar hyd y ffordd gerbydau i barhau ar hyd y llwybr. Maent eisoes ar gael ac yn cael eu defnyddio bob dydd gan ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gyfun Bryn Celynnog ac Ysgol Gynradd Penygawsi.

4.1.5 Lle'r oedd angen croesi ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod gwrthdaro rhwng cerbydau/cerddwyr yn risg isel.

4.1.6 Mae'r Prif Lwybr o fewn terfyn cyflymder o 20/30mya, gyda llifau cerbydau i'w gweld yn gymedrol i uchel, ac roedd nifer y cerddwyr yn isel i gymedrol yn ystod amser yr asesiad.

4.1.7 Mewn mannau, roedd angen clirio llystyfiant i wella lled y llwybr troed defnyddiadwy a gwelededd i gerddwyr, yn enwedig ar y B4595 Ffordd Llantrisant, lle mae coed sy'n hongian a llystyfiant yn lleihau'r lled defnyddiadwy i lai na 1.0m, gydag amodau tebyg wedi'u nodi ar hyd Heol Caerdydd.

4.1.8 Tynnwyd ffotograffau 4.1 i 4.27 ar hyd y llwybr o Cross Inn i Ysgol Gyfun Bryn Celynnog ac fe'u dangosir isod.

**Ffotograff 4.1 – Cychwyn y llwybr yn Yr Heol Fawr, Cross Inn ger tafarn y Cross Inn**




**Ffotograff 4.2 – Croesfan heb ei rheoli (gyda lloches i gerddwyr) ar y gylchfan ar Yr Heol Fawr sy'n cysylltu â Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys ar yr A473**



**Ffotograff 4.3 – Arwyneb troedffordd anwastad o amgylch gorchudd twll archwilio ar y gylchfan ar Yr Heol Fawr**




**Ffotograff 4.4 – Llwybr troed lleol yn culhau ar y ffordd i Heol Caerdydd**



**Ffotograff 4.5 – Malurion dail yn achosi i droedffordd gulhau ar Heol Caerdydd, lle mae gofyn i gerddwyr gamu i'r ffordd i fynd heibio ei gilydd**




**Ffotograff 4.6 – Coed sy'n hongian gan achosi i'r llwybr troed gulhau ar Heol Caerdydd**



**Ffotograff 4.7 – Mynediad i droedffordd i Ganolfan Chwaraeon Llantrisant o Lôn Tir Meibion**




**Ffotograff 4.8 – Mynediad i droedffordd drwy faes parcio Canolfan Chwaraeon Llantrisant lle nodir bod y ddau lwybr cerdded ar gael (mae llwybr troed y fynedfa yn llai serth na'r ramp)**



**Ffotograff 4.9 – Croesfan heb ei rheoli (gyda lloches i gerddwyr) ar y B4595 Heol Talbot, ger Canolfan Chwaraeon Llantrisant**




**Ffotograff 4.10 – Y ddynesfa at Hen Lantrisant ar hyd Teras Insole oddi ar y B4595 Heol Talbot, gyda dŵr ffo arwyneb wedi'i nodi dros y fynedfa i'r lôn**



**Ffotograff 4.11 – Parcio ar y stryd ar hyd Heol-Y-Beiliau yn lleihau lled y ffordd y gellir ei ddefnyddio, nodir bod llif traffig a chyflymder yn isel iawn gyda mannau camu i lawr ar gael i adael i gerbydau fynd heibio.**



**Ffotograff 4.12 – Rhwydwaith llwybrau troed ysbeidiol drwy Hen Lantrisant (Stryd yr Ysgol) gyda lled cyfyngedig y gellir ei defnyddio. Nodir bod llif a chyflymder traffig yn isel iawn gyda mannau camu i lawr i adael i gerbydau fynd heibio**



**Ffotograff 4.13 – Rhwydwaith troedffyrdd cul, digyswllt / anghyson trwy Hen Lantrisant (Stryd yr Alarch) gyda lled ffordd defnyddiadwy cyfyngedig. Nodir bod llif a chyflymder traffig yn isel gyda mannau camu i lawr i adael i gerbydau fynd heibio**




**Ffotograff 4.14 a 4.15 – Rhwydwaith troedffyrdd cul, digyswllt/anghyson trwy Hen Lantrisant (Stryd Fawr). Nodir bod cyflymder traffig yn isel gyda gwelededd da i gerbydau. Mae mannau camu i lawr ar gael i adael i gerbydau fynd heibio ac mae cyfleoedd hefyd i groesi i'r llwybr troed ehangach; fodd bynnag, mae'r opsiynau hyn wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd gan arddangosfeydd/cynnyrch siop yn y lleoliad hwn**






**Ffotograff 4.16 – Parcio ar y stryd ar droedffyrdd wedi'i nodi ar hyd y Stryd Fawr yn culhau'r lled defnyddiadwy ac o bosibl yn achosi problemau diogelwch croesfannau i gerddwyr**




**Ffotograff 4.17 – Croesfan wedi'i rheoli gan signalau ger tafarn y Cross Keys**



**Ffotograff 4.18 – Parcio ar y stryd yn lleihau'r lled defnyddiadwy ar hyd y B4595 Ffordd Llantrisant, Nodir fodd bynnag fod y droedffordd gyferbyn ar gael.**




**Ffotograff 4.19 – Troedffordd ar hyd y B4595 Ffordd Llantrisant gyda choed sy'n hongian a llystyfiant yn lleihau'r lled defnyddiadwy**



**Ffotograff 4.20 – Croesfan heb ei rheoli gydag ynys lloches i gerddwyr ar y B4595 Heol Llantrisant ger y gyffordd â Lôn Brynteg**




**Ffotograff 4.21 – Coed sy'n hongian a llystyfiant yn lleol gan leihau'r lled defnyddiadwy ar hyd y B4595 Ffordd Llantrisant**



**Ffotograff 4.22 – Croesfan heb ei rheoli i gerddwyr gydag ynys lloches i gerddwyr ar y B4595 Ffordd Llantrisant**




**Ffotograff 4.23 – Croesfan heb ei rheoli a rhwystrau ymwthiol ar y B4595 Ffordd Llantrisant**



**Ffotograffau 4.24 a 4.25 – Croesfannau heb eu rheoli gyda llochesi i gerddwyr ar y B4595 Ffordd Llantrisant a Heol Gwaunmeisgyn i'r gylchfan**






**Ffotograff 4.26 – Man croesi heb ei reoli ar y ddynesfa ar Ffordd Penycoedcae at y gylchfan**



**Ffotograff 4.27 – Troedffordd yn arwain at brif fynedfa Ysgol Gyfun Bryn Celynnog**



# 5. Arolygon Cerddwyr / Traffig

5.1 Mae Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr yn nodi: Lle mae angen croesi ffyrdd, argymhellir y dylid ystyried argaeledd cyfleusterau croesi megis llochesi canolog, croesfannau cerddwyr neu arwyddion traffig. Lle nad oes cyfleusterau croesi, dylai asesiad risg y llwybr ystyried pob croesfan ffordd ofynnol, gan gofio cyflymder a llif traffig, llinellau gweld ac ati.

5.2 Os oes angen croesi ffyrdd dylai fod:

- Digon o fylchau yn llif y traffig a'r llinellau gweld i ganiatáu digon o gyfleoedd i groesi'n ddiogel. Dylai'r dadansoddiad amser bwlch gael ei ddefnyddio lle bo angen **neu**
- Llochesi i gerddwyr **neu**
- Cyfleusterau croesi (e.e. sebra, pelican, pâl ac ati) **neu**
- Cyfnod cerddwyr wrth y goleuadau traffig **neu**
- Hebryngwr Croesfan Ysgol.

5.3 Os oes angen croesi ffordd dylai'r gweledthough yn y lleoliad ganiatáu i gerbyd stopio, o ystyried cyflymder yr 85fed canradd (y cyflymder y mae 85% o'r cerbydau'n teithio islaw) o'r llif traffig. Dylid cymryd pellteroedd stopio cerbydau fel y rhai a nodir yn Rheolau'r Ffordd Fawr. Mewn llawer o ardaloedd gwledig, mae'n debygol y bydd angen arfer barn barhaus. Ni all unrhyw feini prawf ddarparu'r holl arweiniad nac atebion i bob sefyllfa bosibl.

5.4 Os oes rhaid croesi ffyrdd i ddefnyddio troedffordd neu i wella llinellau gweld, efallai y bydd angen rhoi cyngor ar fannau croesi diogel. Ar rai ffyrdd gwledig efallai na fydd y droedffordd yn barhaus.

5.5 Bydd yn rhaid gwneud dyfarniad gwybodus ynghylch argaeledd mannau "cam i lawr".

5.6 Gellir asesu pa mor anodd yw croesi safle drwy ystyried nifer y bylchau yn llif y traffig sy'n dderbyniol i gerddwyr. Gall traffig sy'n llifo'n rhydd greu bylchau ar hap ac yn weddol aml, ond mae cyflymderau'n tueddu i fod yn uwch, a byddai angen i fylchau fod yn hirach er mwyn croesi'r ffordd yn ddiogel.

5.7 Mae bwlch derbyniol o ran croesi o un ochr y ffordd i'r llall yn amrywio rhwng pob person. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad. Efallai y bydd angen bylchau mwy o tua 10 i 12 eiliad ar rai eraill.

5.8 Argymhellir bod yr arolwg yn cofnodi nifer y bylchau ym mhob cyfnod o 5 munud sy'n hwy nag amser croesi'r ffordd, gan ddefnyddio un metr yr eiliad fel y cyflymder cerdded. Mae pedwar bwlch ym mhob cyfnod o 5 munud yn dynodi ffordd y gellir ei chroesi heb ormod o oedi. Gallai bylchau hirach fod wedi'u dosbarthu'n fylchau lluosog yn hytrach nag 1 bwlch yn unig.

5.9 Gyda’r meini prawf uchod mewn golwg, cynhaliwyd arolygon traffig i sefydlu llifoedd, cyflymder yr 85fed canradd a bylchau croesi yn y lleoliadau canlynol:

- **Lleoliad 1** – B4595 Ffordd Llantrisant rhwng cyffordd Heol Sticil-Y-Beddau a thafarn y Cross Keys.
- **Lleoliad 2** - Yr Heol Fawr, Cross Inn

5.10 Cynhaliodd Swyddogion Trafnidiaeth RhCT gyfrifiadau traffig yn y lleoliadau hyn.

5.11 Mae’r Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr – Mehefin 2014 yn amlinellu’r hyn sydd ei angen wrth asesu Llif Traffig ar Ffyrdd.

5.11.1 Ystyr llif traffig isel yw ffyrdd sydd â llif traffig o dan 400 o gerbydau mewn cyfnod o awr; llif traffig canolig yw ffyrdd sydd â llif traffig rhwng 400 ac 840 cerbyd yr awr; a llif traffig trwm yw ffyrdd sydd â llif traffig o dros 840 o gerbydau yr awr.

5.11.2 Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad. Ystyrir bod pedwar bwlch o'r fath o fewn cyfnod o 5 munud yn dderbyniol. Ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio 6 eiliad a lle mae'r bwlch yn fwy na neu'n hafal i 12 eiliad mae hyn wedi'i gyfrif fel 2 neu fwy o fylchau.

5.12 Cynhaliwyd cyfrifiadau traffig yn y lleoliad yma ar 4 Rhagfyr 2024, gyda chyfrifiadau rhwng 07:45 a 08:45 a 15:15 a 16:15. Yn unol â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr, mae'r cyfnod a gofnododd y traffig mwyaf wedi'i gynnal eto i gadarnhau dibynadwyedd y data.

5.12.1 **Lleoliad 1 – Y B4595 Ffordd Llantrisant rhwng cyffordd Heol Sticil-Y-Beddau a thafarn y Cross Keys – 15/10/2024**

- ❖ **Yn y bore:** 581 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn golygu cyfanswm o 178 o fylchau dros y cyfnod awr.
- ❖ **Yn y prynhawn:** 636 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn golygu cyfanswm o 170 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.12.2 **Lleoliad 1 – Y B4595 Heol Llantrisant rhwng cyffordd Heol Sticil-Y-Beddau a thafarn y Cross Keys – 18/10/2024**

- ❖ **Yn y bore:** 629 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn golygu cyfanswm o 210 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

5.12.3 **Lleoliad 2 – Yr Heol Fawr, Cross Inn – 11/10/2024**

- ❖ **Yn y bore:** 378 cerbyd yr awr, llif traffig isel, sef <400. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn golygu cyfanswm o 292 o fylchau dros y cyfnod awr.
- ❖ **Yn y prynhawn:** 416 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn golygu cyfanswm o 273 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.12.4 **Lleoliad 2 – Yr Heol Fawr, Cross Inn – 11/10/2024**

- **Yn y prynhawn:** 380 cerbyd yr awr, llif traffig isel, sef <400. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn golygu cyfanswm o 301 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

# 6. Materion Cymdeithasol

6.1 Ni nodwyd bod unrhyw fannau ar hyd y llwybr yn destun Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn ystod yr amseroedd pan fyddai plant ysgol yn cerdded i'r ysgol.

6.2 Efallai y bydd materion eraill nad ydynt yn amlwg o asesiad ar droed, y byddai grwpiau defnyddwyr eraill yn eu nodi. Byddai angen i'r awdurdod lleol ystyried yr agweddau hyn gyda'r Heddlu ac asiantaethau diogelu eraill.

# 7. Data Gwrthdrawiadau

7.1 Ymchwiliwyd i ddata gwrthdrawiadau cerddwyr ar gyfer y 5 mlynedd rhwng 2020 a 2024 (wedi'u dilysu) trwy Crashmap.co.uk a data Gwrthdrawiadau Ffyrdd a Gofnodwyd gan yr Heddlu. Sylwch fod y Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn ei gwneud yn ofynnol i aseswyr ymgorffori 3 blynedd o hanes gwrthdrawiadau wrth asesu llwybr.

7.2 Mae'r data gwrthdrawiadau wedi cael ei ymchwilio yn ystod yr amseroedd y byddai plant ysgol yn cerdded y llwybr i nodi amodau traffig arferol yn ystod yr amser. Mae’r amseroedd hyn wedi’u nodi'n 07:00 – 09:30 ar gyfer taith yn y bore, a 14:30 – 17:00 ar gyfer taith yn y prynhawn..

7.3 Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau a oedd yn ymwneud â cherddwyr ar hyd y llwybr yn ystod y cyfnod a aseswyd.

# 8. Trosolwg Llwybr

## 8.1 Prif Lwybr – Cross Inn i Ysgol Gyfun Bryncelynnog

8.1.1 Mae darnau di-dor o droedffordd mewn cyflwr rhesymol ar hyd rhan helaeth o'r llwybr. Darperir cysylltedd rhwng llwybrau troed yn bennaf gan fannau rheoli â signalau, ynysoedd lloches canolog, a mannau croesi heb eu rheoli eraill. Nodir fodd bynnag, bod y rhannau hynny o'r llwybr troed trwy 'Hen Lantrisant' heb eu cysylltu, ddim yn barhaus ac yn gul, felly mae angen i gerddwyr groesi'r ffordd neu gamu i'r ffordd gerbydau i barhau.

8.1.2 Mae'r rhan o'r llwybr trwy 'Hen Llantrisant' rhwng y B4595 Heol Talbot (Teras Insole) a'r B4595 Heol y Bont-Newydd (ger tafarn y Cross Keys) wir heb ei chysylltu, gan olygu bod angen i gerddwyr groesi'r ffordd gerbydau sawl gwaith. Cofnodir mai llif traffig canolig sydd ar hyd y rhan hon, gyda digon o fylchau mewn traffig i'w chroesi'n ddiogel ac felly yn unol â Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr .. Er mai dyma'r prif lwybr ar gyfer traffig cerbydau, nid dyma'r llwybr a ffefrir ar gyfer cerddwyr sy'n cerdded i'r ysgol.

8.1.3 Y llwybr amgen/dewisol ar gyfer cerddwyr sy'n cerdded i'r ysgol yw Teras Insole, Heol Sticil-y-Beddau, Heol-Y-Beiliau, Y Stablau, Stryd yr Ysgol, Stryd yr Alarch, Heol y Sarn a'r Stryd Fawr (lle mae'r llwybr yn ymuno â'r B4595 Heol y Bont-Newydd). Mae rhai o'r strydoedd hyn yn rhai 'ar gyfer mynediad yn unig' i'r ardaloedd preswyl cyfagos, gyda llif traffig a chyflymder isel iawn wedi'u nodi, sy'n golygu bod angen i gerddwyr 'ildio', 'camu i lawr' neu gerdded ar hyd y ffordd gerbydau i barhau ar hyd y llwybr. Nodwyd bod Heol Sticil-y-Beddau a Heol-Y-Beiliau yn serth ac wedi'u gwneud o gerrig coblog anwastad. Efallai y bydd angen i gerddwyr ddefnyddio'r rhannau hyn yn ofalus yn ystod amodau gwlyb neu phan fo rhew.

8.1.4 Yn gyffredinol, mae llwybrau troed ar hyd y Prif Lwybr yn ddigon da i ganiatáu i gerddwyr fynd heibio'i gilydd yn ddidrafferth. Mae hyn yn gostwng i lai nag 1m ar gyfer rhai 'darnau ildio i gerddwyr' a 'mannau camu i lawr' neu phan mae angen i gerddwyr groesi i ochr arall y ffordd yn y lleoliadau canlynol:

- Tu allan i rif 58 Heol Caerdydd
- Tu allan i rif 30 Heol Caerdydd
- Lleoliadau amrywiol ar hyd Stryd yr Alarch
- Y tu allan i'r Bull Ring General Store

8.1.5 Nodir fodd bynnag fod y droedffordd ar hyd Heol Caerdydd rhwng rhifau 46 a 47 wedi ei chulhau i lai 1.0m. oherwydd malurion dail a llystyfiant wedi gordyfu. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gerddwyr gamu i'r ffordd gerbydau i fynd heibio ei gilydd. Nodir hefyd fod y llain ymyl yng nghefn y llwybr troed yn serth ac nid yw'n addas fel man 'camu i lawr'. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod modd cael gwared ar rywfaint o'r llystyfiant / malurion dail o gefn y llwybr troed i wneud y mwyaf o'r lled ac o bosibl sicrhau bod y lled o leiaf 1.2m.

8.1.6 Mae rhannau ar wahân o'r droedffordd ar hyd Heol Caerdydd a'r B4595 Heol y Bont-Newydd/Ffordd Llantrisant lle mae angen torri coed a llystyfiant sy'n hongian dros y droedffordd er mwyn gwella lled y llwybr a lefelau cysur cerddwyr.

8.1.7 Mae goleuadau stryd ar hyd y llwybr. Fodd bynnag, mae rhannau ar wahân o lwybr troed ar hyd Heol Caerdydd a'r B4595 Ffordd Llantrisant lle mae angen torri coed a llystyfiant sy'n hongian dros y droedffordd i sicrhau bod digon o olau.

8.1.8 Mae rhannau lleol o droedffordd ar hyd y Stryd Fawr (gyferbyn â'r Cross Keys PH) a'r B4595 Heol y Bont-Newydd, lle gall cerbydau sy'n rhwystro llwybrau troed effeithio ar y llwybrau cerdded. Mae carfanau plismona cymdogaeth leol yn gweithio gyda thrigolion i helpu i leihau'r risgiau i gerddwyr gan gerbydau sydd wedi'u parcio fan hyn a fan draw.

8.1.9 Ymchwiliad i wrthdrawiadau cerddwyr wedi'i gynnal rhwng 2020 a 2024. Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau a oedd yn ymwneud â cherddwyr yn ystod yr amseroedd a aseswyd.

8.2 Ar ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod yr amodau a arsylwyd yn darparu amgylchedd diogel i gerddwyr groesi. Aseswyd bod risg isel o wrthdaro rhwng cerbydau / cerddwyr, a nodwyd bod digon o fylchau croesi i gydymffurfio â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Ar adeg yr ymweliad safle, pan welwyd cerddwyr yn croesi, roeddent yn gallu gwneud hynny heb unrhyw drafferthion.

8.2.1 Mae cyfleusterau croesi wedi'u rheoli/heb eu rheoli yn y lleoliadau canlynol:

- Croesfan heb ei rheoli (ynys lloches) – Ar draws cangen ymadael yr A473 o gylchfan Cross Inn.
- Croesfan â Signalau - Y tu allan i rif 107 Heol Talbot (croesfan fesul cam).
- Croesfan â Signalau – Dros y ffordd ddeuol ar yr A4119 Heol Cwm Elái.
- Croesfan heb ei rheoli – Tu allan i rif 29 ar y B4595 Heol Talbot ar yr A4058. (lloches i gerddwyr ar groesfan fesul cam).
- Croesfan â Signalau - Tu allan i rif 112 Heol Talbot ar y B4595.
- Croesfan â Signalau – Y tu allan i dafarn The Cross Keys ar y Stryd Fawr.
- Croesfan heb ei rheoli – Y tu allan i'r eiddo ar wahân, ychydig i'r gogledd o gyffordd Lôn Brynteg â'r B4595.
- Croesfan heb ei rheoli – Y tu allan i rif 61 Ffordd Llantrisant ar y B4595.
- Croesfan heb ei rheoli – Ar gangen Heol Gwaunmeisgin o'r gylchfan gyda'r B4595 Ffordd Llantrisant (lloches i gerddwyr).
- Croesfan heb ei rheoli – Ar gangen Heol Penycoedcae o'r gylchfan gyda'r B4595 Ffordd Llantrisant.

8.2.2 Ni nodwyd bod unrhyw fannau ar hyd y llwybr yn destun Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn ystod yr amseroedd pan fyddai plant ysgol yn cerdded i'r ysgol.

# 9. Casgliad ac Argymhellion

## 9.1 Cross Inn i Ysgol Gyfun Bryn Celynnog

9.1.1 Mae'r llwybr yn bodloni'r meini prawf ac ystyrir ei fod ar gael i'w gerdded yn unol â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr.

9.1.2 Wrth gynnal yr asesiad, nodwyd bod yr amodau llwybrau canlynol drwy ‘Hen Llantrisant’ yn bodloni’r canllawiau Teithio gan Ddysgwyr, ond roedd yn werth nodi:

- Nad yw'r llwybrau troed yn ddi-dor nac yn 'ddigon llydan', ac felly roedd rhaid i gerddwyr groesi'n amlach a/neu gerdded ar y ffordd gerbydau i sicrhau cysylltedd.
- Nid oes cyfleusterau croesi wedi'u rheoli i gerddwyr oherwydd bod troedffyrdd yn gul.
- Natur gaeedig aliniad strydoedd.
- Roedd llif traffig yn isel yn ystod amser yr asesiad. Gan fod angen i draffig ildio'n aml yn anffurfiol er mwyn cadw'r traffig i symud, yn bennaf oherwydd lled cyfyngedig y ffordd gerbydau, roedd cyflymder cerbydau o fewn y terfyn cyflymder 20 mya.
- Ni chofnodwyd unrhyw wrthdrawiadau yn ymwneud â cherddwyr ar hyd y rhan hon o’r Prif Lwybr, ac roedd nifer y cerddwyr yn isel. Lle gwelwyd cerbydau, nodwyd bod cerddwyr yn aros ar ochr y ffordd (lle nad oedd llwybr troed ar gael) i ganiatáu iddynt fynd heibio.
- Mae'r maes hwn wedi bod yn destun astudiaethau blaenorol a chynlluniau gwella posibl, gyda phosibilrwydd bach iawn ar gyfer gwelliannau priffyrdd i helpu cerddwyr i symud.

9.1.3 Dylid gwneud gwelliannau pellach i'r llwybr cerdded i wella amodau ar gyfer defnyddwyr llwybrau:

- Monitro rhwystrau troedffyrdd. Lle mae lled llwybrau troed yn parhau i gael ei gyfyngu gan geir wedi'u parcio a blaenau siopau, dylid gweithredu ar y cyd ag Adran briodol y Cyngor / carfanau plismona cymdogaeth leol. Mae angen gweithredu ar frys yn y mannau canlynol:
  - ➢ Y droedffordd gyferbyn â thafarn y Cross Keys ar y Stryd Fawr.
  - ➢ Blaen siop Bullring General Store ar y Stryd Fawr.
- Lle mae coed a/neu ddail yn hongian neu'n ymledu i lwybrau troed, dylid torri'r ardaloedd hyn yn ôl i wella'r lled defnyddiadwy, llinellau gweld a gwyliadwriaeth naturiol. Yn ogystal â hyn, dylid symud malurion dail a llystyfiant sy'n gordyfu oddi ar lwybrau troed pan fo angen er mwyn eu gwneud yn fwy llydan.
- Monitro cyflwr coed a dail sy'n hongian. Lle mae coed a/neu ddail yn hongian neu'n ymledu dros lwybrau troed, dylid torri'r ardaloedd hyn yn ôl i wella lefelau goleuadau stryd ar hyd y llwybr.

REDSTART

Quest House
St Mellons Business Park
Fortran Rd, St. Mellons
Cardiff
CF3 0EY

www.redstartwales.com

REDSTART